RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
78/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:
27/07/2023

# Asesiad o Werthusadwyedd o’r Strategaeth Cysylltu Cymunedau

## Crynodeb Gweithredol

### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae’r strategaeth Cysylltu Cymunedau, a lansiwyd ym mis Chwefror 2020, yn ddull amlochrog system-gyfan o fynd i’r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yng Nghymru. Wrth baratoi ar gyfer cynnal gwerthusiad o’r strategaeth hon yn y dyfodol a deall ei heffaith i leihau nifer yr achosion o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, comisiynodd Llywodraeth Cymru Alma Economics i gynnal asesiad gwerthusadwyedd o’r strategaeth. Mae ein gwaith yn asesu i ba raddau y gellir gwerthuso’r strategaeth yn effeithiol o fewn ei chyd-destun presennol, yn darparu argymhellion ar sut y dylid gwerthuso’r strategaeth, ac yn awgrymu camau gweithredu y gellir eu cymryd i wella’r broses o’i gwerthuso.

### 2. Methodoleg

2.1 Cynhaliwyd y gweithgareddau ymchwil canlynol i lywio a siapio ein hasesiad gwerthusadwyedd o’r strategaeth Cysylltu Cymunedau:

- **Ymchwil cwmpasu:** yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth o ddulliau gwerthuso cynsail ar gyfer strategaethau neu raglenni tebyg, a chyfweliadau cwmpasu gydag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru i ddeall cyd-destun a gweithrediad y strategaeth.
- **Datblygu Model Rhesymeg a Theorïau Newid integredig:** yn disgrifio'r llwybrau achosol y bydd y strategaeth yn eu defnyddio i gyflenwi ei heffeithiau arfaethedig, yn

seiliedig ar ganfyddiadau'r cyfnod cwmpasu, a'u mireinio ymhellach yn dilyn gweithdy gyda rhanddeiliaid allweddol.

- **Asesiad gwerthusadwyedd:** yn seiliedig ar gyfres o gyfweliadau gyda rhanddeiliaid o bob rhan o'r system i ddeall gwerthusadwyedd, yn ogystal â'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd uchod, fe wnaethom asesu Cysylltu Cymunedau yn erbyn set o feini prawf gwerthuso a ddiffiniwyd ymlaen llaw, asesu dichonoldeb dulliau gwerthuso posibl, a datblygu set o argymhellion y gellir eu gweithredu i wella gwerthusadwyedd y strategaeth.

## 3. Canfyddiadau

### 3.1 Ymchwil cwmpasu

I lywio'r asesiad gwerthusadwyedd, cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth o werthusiadau presennol o strategaethau, rhaglenni, ymyriadau, a gweithgareddau tebyg sydd â'r nod o fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol.

Prin oedd yr enghreifftiau o werthusiadau o strategaethau tebyg ar draws y system ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Yr enghraifft agosaf i Cysylltu Cymunedau ar hyn o bryd yw strategaeth Connected Society i Loegr, er bod ei dull o werthuso canlyniadau allweddol y strategaeth yn dal i gael ei ddatblygu.

Roedd sail dystiolaeth lawer ehangach ynghylch gwerthusiadau o ymyriadau penodol sy'n targedu unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Fodd bynnag, canfuom fod ansawdd a maint y dystiolaeth yn amrywio'n sylweddol, gyda rhai grwpiau o ymyriadau'n fwy addas ar gyfer methodolegau gwerthuso mwy cadarn nag eraill. Er enghraifft, mae cyfran sylweddol o ymyriadau sy'n ymwneud â gweithgaredd corfforol i leihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn cael eu gwerthuso gyda methodolegau arbrofol, megis Hap-dreialon Rheoli (RCTs). Y rheswm am hyn yw bod yr ymyriadau hyn yn hawdd eu defnyddio i greu grŵp trin a rheoli ar hap, gan ganiatáu arbrofion cadarn. Ar gyfer mathau eraill o ymyriadau, megis creu hybiau cymunedol neu wella rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus, mae'n llawer mwy heriol ac amheus yn foesegol i fabwysiadu methodolegau arbrofol sy'n cynnwys neilltuo buddiolwyr posibl ar hap i ddau grŵp, ac felly gellid dadlau y byddai'n achosi niwed i unigolion sydd wedi'u heithrio o'r gwasanaeth.

### 3.2 Model Rhesymeg a Theorïau Newid

Oherwydd yr achosion eang o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a'u heffeithiau pellgyrhaeddol, mae'r strategaeth Cysylltu Cymunedau yn darparu dull hynod gymhleth, system-gyfan o fynd i'r afael â'r mater. Mae'r gwaith hwn yn dangos sut mae'r strategaeth yn ceisio lleihau nifer yr achosion o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol trwy gyfres

amlochrog o weithgareddau a rhaglenni sy'n rhychwantu sawl maes polisi sy'n gweithredu trwy ystod eang o fecanweithiau i gynhyrchu gwelliannau posibl mewn unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Mae hyn yn gwneud y llif o weithgareddau i ddeilliannau yn hynod gymhleth ac yn cynhyrchu ystod eang o ganlyniadau canolradd. Mae disgwyl wedyn i gyfres o effeithiau ail-radd lifo o lai o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, gan gynnwys gwell iechyd corfforol a meddyliol, llesiant, cyfalaf cymdeithasol a chydlyniant, a llai o ddefnydd o wasanaethau cyhoeddus (e.e., y GIG, gofal cymdeithasol).

## 3.3 Asesiad gwerthusadwyedd

Aseswyd gwerthusadwyedd y strategaeth Cysylltu Cymunedau yn erbyn y meini prawf canlynol:

a) Dyluniad y rhaglen:

- **Eglurder nodau ac amcanion.** Mae'r ddogfen strategaeth Cysylltu Cymunedau yn nodi'n glir ei nodau, ei hamcanion, a'r mecanweithiau ar gyfer cyflawni'r rhain, er nad yw'n diffinio amcanion na llwyddiant y strategaeth fel rhai SMART (penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, perthnasol, ac â chyfyngiad amser). e.e. lleihau unigrwydd hunan-gofnodedig gan x% mewn tair blynedd). Ceir rhagor o fanylion am nodau ac amcanion y strategaeth yn y Model Rhesymeg a Theorïau Newid a ddatblygwyd fel rhan o'r asesiad gwerthusadwyedd hwn.
- **Cysondeb.** Po fwyaf cyson y gweithredir y strategaeth dros amser (h.y., o ran amseriad, cymysgedd a maint y gweithgareddau), y mwyaf syml fydd hi i'w gwerthuso. Rydym yn deall y bu tarfu mawr ar weithrediad y strategaeth drwy'r pandemig COVID-19, a mân newidiadau i'w gweithrediad wrth symud ymlaen. Bydd parhad y strategaeth yn y dyfodol yn dibynnu ar gyllid parhaus a'r cymysgedd o raglenni.
- **Cymhlethdod.** Mae'r strategaeth yn ddull hynod gymhleth, system-gyfan o fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, sy'n cynnwys ystod eang o fecanweithiau. Mae'r cymhlethdod hwn yn ei gwneud yn heriol priodoli unrhyw effeithiau a fesurwyd yn uniongyrchol i'r strategaeth neu raglenni unigol.
- **Bodolaeth dangosyddion.** Mae natur anniriaethol a goddrychol y mesurau presennol yn ei gwneud yn anodd mesur unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn gyson ac yn ddibynadwy. Mae'r ddogfen strategaeth yn amlinellu un dangosydd uniongyrchol a chyfres o ddangosyddion dirprwyol (sy'n cydberthyn ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol) i olrhain pa mor gyffredin yw unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yng Nghymru.

b) Argaeledd gwybodaeth:

- **Argaeledd data.** Er bod data'n cael ei gasglu ar lefel genedlaethol ar unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, nid yw'n ymddangos bod y data hwn yn cael ei gasglu'n rheolaidd ar lefel rhaglen neu nad yw'n ddigon gronynnog i nodi unrhyw effeithiau ystyrlon. Nid yw'n glir i ba raddau y mae'r canlyniadau sydd wedi'u cynnwys o fewn Theorïau Newid y strategaeth yn cael eu monitro ar lefel rhaglen. Byddai diffyg argaeledd data yn cyfyngu ar y defnydd o dechnegau gwerthuso meintiol ac yn cyfyngu ar y gallu i briodoli achosiaeth effaith i'r strategaeth. Yn yr un modd, nid yw'n ymddangos ychwaith bod symiau sylweddol o ddata monitro yn cael eu casglu'n gyson ar draws ymyriadau a phrosiectau.
- **Y gallu i gasglu data cynradd.** Bydd maint y casglu data dichonadwy yn dibynnu'n fawr ar yr adnoddau sydd ar gael. Ar gyfer rhai rhaglenni, bydd casglu data sylfaenol yn dibynnu ar gydweithrediad partneriaid cyflenwi prosiectau a buddiolwyr. Gall casglu data sylfaenol yn ôl-weithredol fod yn heriol yn achos gweithgareddau sydd eisoes wedi'u rhoi ar waith. Efallai y bydd angen dull samplu o ystyried y nifer fawr o raglenni.
- **Moeseg**. O ystyried natur fregus llawer o unigolion sy'n profi unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, neu sydd mewn perygl o wneud hynny, bydd angen i werthusiad yn y dyfodol ystyried agweddau a dulliau a allai achosi niwed i'r cyfranogwyr ymchwil. Gall hyn olygu heriau moesegol i ddefnyddio rhai dulliau gwerthuso.
- **Priodoliad**. Mae natur hynod gymhleth, system-gyfan y strategaeth Cysylltu Cymunedau, ynghyd â data monitro cyfyngedig ar lefel y rhaglen, yn ei gwneud yn hynod heriol priodoli unrhyw newidiadau mesuredig mewn canlyniadau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn gadarn i'r strategaeth. Roedd y rhan fwyaf o raglenni'r strategaeth yn bodoli cyn ei sefydlu, felly bydd angen i werthusiad hefyd ddeall yr effaith gynyddol ar bob gweithgaredd o ganlyniad i'r strategaeth, sy'n cyflwyno cymhlethdod pellach wrth bennu achosiaeth.

c) Cyd-destun sefydliadol:

- **Ymwybyddiaeth o'r cyd-destun.** Gallai diffyg ymwybyddiaeth o'r strategaeth ei gwneud hi'n heriol casglu mewnwelediad gan randdeiliaid, yn enwedig wrth geisio deall effaith y strategaeth. Disgwyliwn y bydd ymwybyddiaeth o'r strategaeth yn is i randdeiliaid a buddiolwyr allanol sy'n fwy datgysylltiedig o'r broses llunio polisi, o ystyried lefel isel marchnata'r strategaeth i'r cyhoedd.

- **Amseru.** Bydd y gwerthusiad yn fwy gwerthfawr os gellir defnyddio ei ganfyddiadau fel sail i ddatblygiad polisi parhaus. Mae fersiwn gychwynnol y strategaeth wedi ymestyn dros y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2020/21 a 2023/24, gyda pharhad y strategaeth yn y dyfodol heb ei benderfynu ar hyn o bryd. Pe na bai'r strategaeth yn parhau y tu hwnt i 2023/24, byddai llai o werth i'w gwerthuso o ystyried na fyddai'r hyn a ddysgwyd yn bwydo i mewn i wella polisi parhaus. Dylai gwerthusiad a gynhelir yn awr hwyluso lefel ddigonol o brofiad gweithredu i sicrhau gwersi defnyddiol.
- **Mynediad i randdeiliaid.** Er ein bod yn disgwyl y bydd gan werthuswyr fynediad digonol at Lywodraeth Cymru a phartneriaid cyflenwi, gallai ymgysylltu â buddiolwyr terfynol fod yn fwy heriol, yn enwedig lle mae rhaglenni/gweithgareddau'n targedu grwpiau agored i niwed.
- **Adnoddau.** Nid yw lefel yr adnoddau sydd wedi'u neilltuo i werthusiad yn y dyfodol wedi'i phennu ar hyn o bryd, ond dylai fod yn gymesur â'r proffil, y gost, lefel y risg a'r ansicrwydd, a'r potensial ar gyfer dysgu newydd y disgwylir iddo ddeillio o werthuso'r strategaeth.

## 4. Casgliadau ac argymhellion

4.1 Mae ein hymchwil yn dangos bod sgôp pendant ar gyfer proses, effaith, a gwerthusiad economaidd o'r strategaeth Cysylltu Cymunedau a'r rhaglenni unigol sy'n dod o fewn ei gylch gorchwyl. Mae lefel yr adnoddau a fydd ar gael ar gyfer gwerthusiad, sy'n anhybsys ar hyn o bryd, yn benderfynydd allweddol o gwmpas y gweithgareddau y gellir eu cynnal mewn gwerthusiad yn y dyfodol.

4.2 O ystyried ei natur hynod gymhleth a system-gyfan, mae gwerthusiad o'r strategaeth gyffredinol yn debygol o gael ei gyfyngu i ddefnyddio dull 'dulliau cymysg' sy'n cynnwys casglu data ansoddol a dadansoddi canlyniadau ac effeithiau allweddol cyn ac ar ôl, lle mae data ar gael. Mae'n debygol y bydd y gwerthusiad proses yn gofyn am weithgareddau gwaith maes ar wahân ar gyfer llunwyr polisi a buddiolwyr posibl, gan fod lefelau ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn debygol o fod yn is. Mae'n debygol y bydd gwerthusiad proses yn gofyn am weithgareddau casglu data newydd i ganiatáu gwerthusiad digonol. Mae'n annhebygol y gellir priodoli effeithiau yn achosol i'r strategaeth Cysylltu Cymunedau ar gyfer yr effaith a'r gwerthusiad economaidd o ystyried y diffyg argaeledd data a'r cymhlethdod sydd ynghlwm wrth ddatblygu senario gwrthffeithiol (a fyddai'n caniatáu i werthuswyr gymharu canlyniadau mesuredig â chanlyniadau a fyddai wedi digwydd pe na bai'r strategaeth wedi'i gweithredu). Bydd unrhyw ddadansoddiad cost a budd a wneir ar gyfer y gwerthusiad economaidd yn debygol o ddibynnu ar edrych

ar astudiaethau achos penodol ac ymyriadau o fewn y strategaeth am yr un rhesymau, yn hytrach nag asesu'r strategaeth yn ei chyfanrwydd. Disgwyliwn y bydd natur pob rhaglen, y data sydd ar gael, yr adnoddau sydd ar gael, ac ystyriaethau moesegol yn llywio cwmpas gweithgareddau gwerthuso dichonadwy ar lefel y rhaglen, gyda rhai rhaglenni o bosibl yn addas ar gyfer dulliau gwerthuso mwy cadarn megis treial rheoli ar hap.

4.3 Rydym yn argymell y dylid cymryd y camau canlynol i wella gwerthusadwyedd Cysylltu Cymunedau:

- Diffinio amcanion a llwyddiant y strategaeth, yn ddelfrydol fel amcanion SMART (penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, perthnasol, ac wedi'u cyfyngu gan amser). Bydd hyn yn helpu gwerthuswyr y dyfodol i ddeall pa effeithiau y dylid eu gwerthuso.
- Dylid darparu eglurder ar ddyfodol tymor hir y strategaeth Cysylltu Cymunedau gan y bydd hyn yn pennu defnyddioldeb a chwmpas y gwerthusiad ar gyfer gwerthuswyr yn y dyfodol.
- Mapio'r canlyniadau a'r effeithiau ar lefel y strategaeth a rhaglen a awgrymir yn y Model Rhesymeg a Theorïau Newid ynghylch newid i'r broses o gasglu data cyfredol, i nodi bylchau mewn monitro ar lefel rhaglen.
- Ceisio ymdrin â bylchau yn y dystiolaeth, trwy:
    - Wella'r broses o gasglu data ar unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Yn ddelfrydol, byddai data o'r fath hefyd yn cynnwys dadansoddiadau i lefelau is-genedlaethol (e.e., lefel awdurdod lleol neu fwy gronynnog) ac yn ôl grwpiau poblogaeth penodol o ddiddordeb (e.e., nodweddion economaidd-gymdeithasol a demograffig) gan y byddai hyn yn helpu i hwyluso'r gwaith o lunio polisïau targededig.
    - Ymgorffori monitro unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn rheolaidd mewn monitro ar lefel rhaglen. Gellid cyflawni hyn trwy godi ymwybyddiaeth o fesurau o'r fath a darparu arweiniad ar eu defnydd.
    - Ystyried gweithgareddau casglu data newydd i ddeall sut mae unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn newid dros amser. Gellid casglu hyn er enghraifft trwy arolwg gwaelodlin o fuddiolwyr rhaglenni, gydag arolygon dilynol i sefydlu unrhyw newidiadau yn y canlyniadau hyn.
    - Cysylltu data lefel rhaglen â chofnodion gweinyddol (e.e. canlyniadau iechyd a llesiant), a fyddai'n galluogi mesur effeithiau iechyd a llesiant hirdymor.
    - Cydweithio â rhanddeiliaid drwy'r system i sicrhau bod yr holl ddata presennol ar gael ar gyfer monitro'r strategaeth.

- Monitro mewnbynnau dynol ac ariannol sy'n bwydo i'r strategaeth, gan gefnogi gweithgareddau gwerthuso economaidd yn y dyfodol.
- Archwilio’r potensial ar gyfer cydgysylltu a chyfuno adnoddau gwerthuso ar draws meysydd polisi lluosog o fewn Llywodraeth Cymru i wneud y mwyaf o gwmpas unrhyw werthusiad o’r strategaeth yn y dyfodol ac osgoi dyblygu.

Awduron adroddiadau: Alma Economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2023). *Asesiad o Werthusadwyedd o'r Strategaeth Cysylltu Cymunedau*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 78/2023. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cysylltu-cymunedau-asesiad-o-werthusadwyedd
Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Enw: Hannah Smith

Is-adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000622308

Ebost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-386-8